# PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD DYDD MAWRTH, 19 TACHWEDD 2019

**YN BRESENNOL:**

Anne Lloyd Jones (Is-Gadeirydd)

**Y Cynghorwyr:** Annwen Hughes, Charles Wyn Jones, Linda Ann Jones, Edgar Wyn Owen, Eryl Jones-Williams a Mair Rowlands

**SWYDDOGION:** Geraint Owen (Pennaeth Adran Cefnogaeth Gorfforaethol, Vera Jones (Rheolwr Gwasanaethau Democratiaeth ac Iaith) a Sian Ellis Williams (Swyddog Dinesig a Gwasanaethau Democratiaeth)

**HEFYD YN BRESENNOL ar gyfer Eitemau 10 ac 11**

**Carey Cartwright, Nia Meleri Edwards, Sam Angel a Cara Williams (Tîm Dysgu a Datblygu)**

## 1. ETHOL IS GADEIRYDD

PENDERFYNWYD: Ethol y Cynghorydd Anne Lloyd Jones yn is-gadeirydd y Pwyllgor hwn am y flwyddyn 2019/20.

## 2. YMDDIHEURIADAU

Y Cynghorwyr Annwen Daniels, Anwen Davies, John Brynmor Hughes, Judith Humphreys a Dewi Owen.

## 3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

## 4. MATERION BRYS

Nid oedd mater brys

## 5. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 4 Ebrill 2019 fel rhai cywir.

## 6. CYDNABYDDIAETH ARIANNOL I AELODAU ETHOLEDIG

Cyflwynodd y Rheolwr Gwasanaethau Democratiaeth ac Iaith ei hadroddiad gan nodi fod Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol (Chwefror 2020) wedi ei gyhoeddi ar ffurf drafft ar y 15fed o Hydref, 2019. Gofynnodd i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth gyflwyno sylwadau fel sail i ffurfio ymateb i'r ymgynghoriad drafft gan y Panel. Bydd gofyn ymateb i'r ymgynghoriad erbyn 10fed o Ragfyr, 2019.

Cododd y sylwadau penodol isod o'r drafodaeth:

- Ei fod yn bwysig fod pawb yn ymwybodol mai'r Panel oedd yn gosod lefelau'r cyflog, nid y Cyngor.
- Eu bod yn cyd-fynd gyda'r lefel cynnydd oedd wedi ei nodi yn yr adroddiad drafft.
- Nad oedd hyrwyddo'r ad-daliadau o gostau gofal i'r rhai oedd y gymwys yn dasg hawdd a chydnabuwyd y byddai'n cymryd amser i godi ymwybyddiaeth ac nad oedd am ddigwydd yn syth. Serch hynny 'roedd yn bwysig fod argaeledd yr ad-daliad wedi ei hyrwyddo cyn etholiadau er mwy annog amrywiaeth ymysg ymgeiswyr. Nodwyd fod hon yn broblem genedlaethol ac nid yn un unigryw i Wynedd. Gofynnwyd i'r swyddogion ystyried gwahanol ddulliau o godi ymwybyddiaeth i'r ad-daliad gofal ymysg aelodau.

Derbyniwyd yr adroddiad.

## 7. CYFATHREBU A THECHNOLEG

Cyflwynodd y Rheolwr Gwasanaethau Democratiaeth ac Iaith adroddiad a gyflwynwyd ar y cyd ganddi hi a'r Uwch Reolwr Technoleg Gwybodaeth.

Adroddodd bod y Cyngor wedi gwneud cynnydd gyda'i ddefnydd o dechnoleg, ond bod lle i wella hynny ymhellach, a bod rôl arbennig gan y Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth i fod yn cynorthwyo gyda hyn.

Nodwyd ei bod yn angenrheidiol ystyried y darlun cyfansawdd ar gyfer adnabod y ffordd ymlaen a gwneud hynny mewn modd rhesymegol sy'n cyd-fynd â datblygiadau perthnasol . I'r perwyl hwn mae Grŵp Prosiect ar y cyd rhwng yr Adran Gyllid a'r Adran Gefnogaeth Gorfforaethol newydd ei sefydlu i fwrw ymlaen gyda'r gwaith. Nodwyd y bydd y Grŵp Prosiect yn adrodd diweddariadau i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth maes o law.

Adroddwyd y byddid yn parhau i geisio gwella o fewn y ddarpariaeth gyfredol yn y cyfamser, gan gynnwys treialu defnydd o fideo gynhadledd a skype,casglu tystiolaeth am brofiad y defnyddiwr, a cheisio dileu'r rhwystrau i wneud y defnydd gorau o'r ddarpariaeth gyfredol.
Yn ogystal, byddid yn gweithio gyda'r Gwasanaeth Dysgu a Datblygu i ddatblygu hyfforddiant ar gyfer Cadeirio cyfarfodydd o'r fath, gan ymchwilio i waith Cynghorau eraill yn y maes a dysgu o'u profiadau hwy.

Nodwyd hefyd bod y porth aelodau wedi bod yn cael sylw dros y misoedd diwethaf ac adroddwyd y derbyniwyd nifer o sylwadau gan aelodau ar ymarferoldeb y porth, a syniadau ynghylch yr hyn roeddent yn ddymuno ei gael. I grynhoi yn syml, roedd teimlad fod lle i wella pa mor hawdd ei ddefnyddio oedd y porth, ond fod y wybodaeth arno yn ddefnyddiol iawn – yn arbennig i Aelodau newydd. Yn sgil y sylwadau hyn, roedd porth wedi ei ddatblygu ar ei newydd wedd, un llawer haws ei ddefnyddio ac wedi ei adeiladu o berspectif aelodau'n ei ddefnyddio yn hytrach na staff yn ei gynllunio. Roedd safle peilot wedi ei greu, gyda'r bwriad o rannu'r porth gyda'r holl aelodau gynted ag y bydd yn barod. Gofynnwyd i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth adnabod 3 neu 4 o'u plith i gael cyflwyniad i'r porth a'i ddefnyddio dros dro er mwyn bwydo sylwadau yn ôl i'r swyddogion.

Cymeradwywyd y ffordd ymlaen gan enwebu'r Cynghorwyr Anne Lloyd–Jones, Charles Wyn Jones a Mair Rowlands i gynorthwyo treialu'r Porth Aelodau ar ei newydd wedd.

## 8. ADRODDIADAU BLYNYDDOL AELODAU ETHOLEDIG 2018/19

Adroddodd y Rheolwr Democratiaeth ac Iaith bod yn rhaid i awdurdodau lleol Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 wneud trefniadau:

- bob person sy'n aelod o'r awdurdod i lunio adroddiad blynyddol ynghylch gweithgareddau'r person fel aelod o'r awdurdod yn ystod y flwyddyn y mae'r adroddiad yn ymwneud â hi,
- bob person sy'n aelod o weithrediaeth yr awdurdod lunio adroddiad blynyddol ynghylch gweithgareddau'r person fel aelod o'r weithrediaeth yn ystod y flwyddyn y mae'r adroddiad yn ymwneud â hi
- gyhoeddi pob adroddiad blynyddol sy'n cael ei lunio gan ei aelodau a chan aelodau ei weithrediaeth.

Nodwyd y nifer o Aelodau Etholedig a ddewisodd gyhoeddi adroddiadau blynyddol dros y blynyddoedd diwethaf:

| | |
|---|---|
| 2012/13 | 8 adroddiad (peilot o'r drefn) |
| 2013/14 | 26 adroddiad (gan ddefnyddio templed am y tro cyntaf) |
| 2014/15 | 39 adroddiad |
| 2015/16 | 29 adroddiad |
| 2016/17 | Ni chynhyrchwyd adroddiadau |
| 2017/18 | 16 adroddiad |
| 2018/19 | 17 adroddiad |

Adroddwyd bod Aelodau'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth wedi trafod yr adroddiadau blynyddol lawer gwaith, gyda'r nôd parhaus o gynhyrchu adroddiadau gweledol deniadol, o geisio symleiddio'r broses i'w cynhyrchu tra'n cadw o fewn y canllawiau ar gyfer yr adroddiadau.

Roedd yr amserlen eleni yn llawer tynnach na'r hyn a fu yn y gorffennol, gyda'r nôd o sicrhau cyhoeddi yr adroddiadau ar y safle we yn ddwyieithog cyn yr haf. Penderfynwyd symleiddio'r broses ymhellach, gan ofyn i Aelodau Etholedig ateb dau gwestiwn ar ffurf e-bost yn unig fel a ganlyn:

- Beth oedd eich prif weithgareddau etholaethol a chymunedol dros y cyfnod 4 Mai 2018 i 3 Mai 2019?
- Pa gyfarfodydd y bu i chi eu mynychu yn ystod y cyfnod 4 Mai 2018 i 3 Mai 2019 yn ychwanegol i'r hyn a nodir yn eich ystadegau presenoldeb ar y wefan?

Bu'r broses yn llawer esmwythach i'r Aelodau a'r Swyddogion eleni ar gyfer cynhyrchu adroddiadau 2018/19. Tybiwyd mai'r rhesymau am hyn oedd:

- Nad oedd templed i'w gwblhau, yn hytrach 2 gwestiwn oedd angen sylw yr Aelodau
- Nid oedd gwaith trosglwyddo rhwng un rhaglen gyfrifiadurol a'r llall
- Dilëwyd nifer o gamau gwastraff o'r prosesau cefndirol, camau nad oedd yn ychwanegu gwerth
- Blaenoriaethwyd y gwaith gan swyddogion er mwyn ei gwblhau yn amserol

Gofynnwyd y cwestiwn a oedd yn werth cyhoeddi yr adroddiadau blynyddol, a chytunodd y Rheolwr i chwilio am ffigyrau ynglyn â nifer oedd yn eu darllen/ edrych arnynt ar y wefan. Roedd yn amau bod y ffigyrau hynny yn cynyddu ar adeg etholiad. Hefyd adroddwyd fod diweddariad i'r Mesur llywodraeth Lleol ar ei ffordd, ac y disgwylid diweddariad yn y Mesur ar yr adroddiadau blynyddol.

Derbyniwyd yr adroddiad.

## 9. IS-GRWP AMRYWIAETH

Adroddwyd bod yr is-grŵp wedi ail afael yn y gwaith dros y misoedd diwethaf, ac yn falch

o groesawu aelodau newydd i’r grŵp. Gwnaethpwyd cynnydd mewn tri maes penodol: codi ymwybyddiaeth o ragfarn diymwybod, cynnal peilot o ddigwyddiad i gynyddu ymwybyddiaeth o drefniadau democratiaeth ymysg pobl ifanc, a sefydlu rhaglen waith pellach.

Nododd y pwyllgor bod “Rhagfarn Diarwybod” - hyfforddiant a gododd yn wreiddiol fel cais gan y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd wedi bod yn llwyddiannus iawn ac anogwyd pawb i fynychu’r cwrs.

Adroddwyd y bu criw o 85 o bobl ifanc o 6 o ysgolion cynradd dalgylch Dyffryn Nantlle ar ymweliad â Siambr y Cyngor yn ystod mis Gorffennaf eleni. Pwrpas y sesiwn oedd ceisio codi ymwybyddiaeth y plant o drefniadau democratiaeth y Cyngor. Rhoddwyd profiad iddynt o drafod yn y Siambr, gan roi cyfle iddynt holi rhai o’r Cynghorwyr ar wahanol bynciau.

Tra’n cymeradwyo y rhaglen waith, nodwyd y byddai angen ystyried effaith pleidlais i bobl ifanc 16-17 oed i’r cylch gorchwyl a’r rhaglen waith unwaith y byddai’r mesur yn dod i rym.

Hefyd croesawyd y bwriad i sefydlu cronfa genedlaethol i gynorthwyo pobl anabl sydd angen cymorth ymarferol i sefyll etholiad.

**10. DARPARIAETH DYSGU A DATBLYGU I AELODAU**

Cyflwynodd y Rheolwr Dysgu a Datblygu’r Sefydliad ei adroddiad gan nodi y cynigir rhaglen ddatblygol gynhwysfawr sy’n cynnwys hyfforddiant ‘traddodiadol’ wyneb i wyneb, ac elfennau megis gweithdai, cymhelliant (coaching) ac e-ddysgu. Hefyd, darperir rhaglen ar gyfer datblygu’r Arweinyddiaeth.

Adroddwyd bod y rhaglen yn cynnwys teitlau allweddol/craidd (sy’n cael eu hadnabod gan Swyddogion yn bennaf) a theitlau datblygol sy’n rhoi cyfle i Aelodau ystyried eu hanghenion dysgu a datblygu personol eu hunain a chymryd cyfrifoldeb cynyddol dros gynnwys y rhaglen.

Nododd y Pwyllgor bod angen ystyried sut i sicrhau bod pob aelod yn mynychu hyfforddiant perthnasol.

Gwahoddwyd y Pwyllgor i ystyried y rhaglen bresennol ac i gysylltu â’r Tîm Dysgu a Datblygu i gynnig awgrymiadau am feysydd/teitlau ychwanegol i’w cynnwys.

Derbyniwyd yr adroddiad.

**11. YMDDYGIAD BYGYTHIOL YN ERBYN CYNGHORWYR**

Cyflwynodd y Rheolwr Gwasanaethau Democratiaeth ac Iaith adroddiad ar y cyd ganddi hi a’r Swyddog Cyfathrebu Aelodau a Staff.

Adroddwyd bod nifer cynyddol o bobl sy’n ymwneud â democratiaeth (ar lefel genedlaethol neu leol) yn nodi eu bod yn dioddef bygythiadau, a bod Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlC) wedi diweddaru eu canllawiau ar gyfer Cynghorwyr. Maent yn cynnwys mesurau ymarferol y gall Cynghorwyr a darpar ymgeiswyr eu hystyried er mwyn diogelwch personol.

Nododd y Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth bod canllawiau ymarfer da ar gyfer

staff y Cyngor yn berthnasol i Aelodau hefyd ac y trefnir i'w gosod mewn man cyfleus i Aelodau.
Nodwyd bod dau brif bwynt wedi codi o'r drafodaeth:

- **technoleg** – yn ymwneud â diogelwch ar gyfryngau cymdeithasol ee rhyddhau cyfeiriad, cyfeiriad e-bost a rhif ffôn personol ar safle gwefan a chyfryngau cymdeithasol
- **gwydnwch personol** – yn wyneb yr ymdeimlad a'r disgwyl traddodiadol fod gwleidyddion sydd mewn rolau cyhoeddus i fod i ddisgwyl a derbyn rhywfaint o sylwadau a phobl yn anghydweld, fod y canllawiau yn ystyried sut i ddelio'n feddyliol pan fo rhywbeth yn digwydd.

Cytunwyd bod angen ystyried hyfforddiant ar gyfer y ddau faes uchod.

Dechreuodd y cyfarfod am 10.30 a daeth i ben am 12:10

**CADEIRYDD**